



At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 6 Mehefin 2013

Rhif Union: 01824 712568

ebost: [dcc\\_admin@denbighshire.gov.uk](mailto:dcc_admin@denbighshire.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 12 MEHEFIN 2013** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, FFORDD CHUARTON, Y RHYL.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

## AGENDA

### **RHAN 1: GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

#### **3 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

#### **4 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu gydag unrhyw fater a nodwyd y dylid eu hystyried yn y cyfarfod hwn.

## **5 MATERION BRYS Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys o dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## **6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 14)**

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2013 (copi ynghlwm).

## **7 GWEITHDREFNAU'R PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER PENDERFYNU AR GEISIADAU AC ADOLYGIADAU CERBYDAU HACNI A GYRWYR HURIO PREIFAT (Tudalennau 15 - 20)**

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) sy'n gofyn i aelodau gymeradwyo gweithdrefnau diwygiedig y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer penderfynu ar geisiadau cerbydau hacni a cheisiadau gyrwyr hurio preifat ac adolygiadau trwyddedau gyrwyr presennol.

## **8 GWEITHDREFNAU AR GYFER POLISIŌU NEWYDD A DIWYGIEDIG (Tudalennau 21 - 24)**

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau gymeradwyo'r gweithdrefnau i'w mabwysiadu ar gyfer drafftio polisiâu newydd a diwygio polisiâu cyfredol.

## **9 GWEITHDREFNAU TRWYDDEDU (Tudalennau 25 - 68)**

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau gymeradwyo'r gweithdrefnau, gan gynnwys dirprwyo i swyddogion, ar gyfer delio â cheisiadau.

## **10 RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2013/14 (Tudalennau 69 - 72)**

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) sy'n cyflwyno rhaglen waith y pwyllgor ar gyfer ei chymeradwyo ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ynglŷn â materion perthnasol.

## **RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem(au) a ganlyn yn cael eu hystyried, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig (fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12, 13 ac 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**11 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYD HURIO PREIFAT - RHIF 047319** (Tudalennau 73 - 78)

Ystyried adroddiad cyfrinachol Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais ar gyfer trwydded gyrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 047319

**12 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF 047324** (Tudalennau 79 - 84)

Ystyried adroddiad cyfrinachol Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais trwydded gyrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 047324.

**13 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF 047331** (Tudalennau 85 - 90)

Ystyried adroddiad cyfrinachol Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais trwydded gyrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 047331.

**14 ADOLYGU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF 044473** (Tudalennau 91 - 108)

Ystyried adroddiad cyfrinachol Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded gyrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat Ymgeisydd Rhif 044473.

**15 ADDASRWYDD CERBYD AT GYFER TRWYDDED HURIO PREIFAT** (Tudalennau 109 - 112)

Ystyried adroddiad cyfrinachol Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais Trwydded Hurio Preifat.

## **MEMBERSHIP**

### **Y Cynghorwyr**

Joan Butterfield  
William Cowie  
Richard Davies  
Stuart Davies  
Hugh Irving  
Pat Jones

Barry Mellor  
Win Mullen-James  
Peter Owen  
Arwel Roberts  
Cefyn Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

## PWYLLGOR TRWYDDEDU TREFN PENNU CEISIADAU TRWYDDEDU

CAM	DISGRIFIAD
1.	Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd) i gyhoeddi'r cais yn fyr
2.	Gofynnir i'r ymgeisydd gyflwyno'i achos Gall yr ymgeisydd alw unrhyw dystion a fyn i gefnogi'r cais
3.	Gall aelodau'r pwyllgor holi'r ymgeisydd neu ei dystion
4.	Fe wahoddir unrhyw wrthwynebwyr i'r cais i siarad
5.	Rhoddir cyfle i'r ymgeisydd holi'r gwrthwynebwyr
6.	Gall aelodau'r pwyllgor holi'r gwrthwynebwyr
7.	Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Heddlu, Gwasanaeth Tân, Rheoli Adeiladu, Rheoli Llygredd)
8.	Gall aelodau'r pwyllgor ac wedyn yr ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr holi'r swyddogion technegol
9.	Fe wahoddir yr ymgeisydd i wneud datganiad terfynol
10.	Bydd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn gwneud datganiad terfynol (os bydd angen)
11.	Fe ofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra bydd y cais yn cael ei drafod gan aelodau - yr ymgeisydd, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol, y wasg a'r cyhoedd NB Yr unig bobl ddylai fod ar ôl yw – aelodau pwyllgor, y cyfieithydd, ymgynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r clerc cofnodion
12.	Bydd aelodau'r pwyllgor yn ystyried y cais gan ystyried y dystiolaeth a roddwyd
13.	Pan fydd yr aelodau wedi gwneud eu penderfyniad, fe elwir pob parti'n ôl ac fe hysbysir yr ymgeisydd o benderfyniad yr aelodau
14.	Fe hysbysir yr ymgeisydd o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl, Dydd Mercher, 6 Mawrth 2013 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr William Cowie, Richard Davies, Stuart Davies (Cadeirydd), Win Mullen-James, Arwel Roberts a Cefyn Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Gyfreithiwr (AL), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Swyddog Trwyddedu (NJ & JT), Swyddog Gorfodaeth (TWE), Swyddog Gorfodaeth Trwydedi (HB), a Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Joan Butterfield

### 2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni chyflwynwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol neu ragfarnus.

### 3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2012 a'r Pwyllgor Trwyddedu Arbennig a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2013.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2012 a 24 Ionawr 2013 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.*

Ar y pwynt hwn, nododd y Cadeirydd ei fwriad i amrywio trefn y rhaglen i ddelio â'r unigolion hynny a oedd yn mynychu'r cyfarfod i gefnogi eu ceisiadau/adolygiadau trwydded a gwranddo ar eu hachosion hwy cyn unrhyw fusnes arall.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 o atodlen 12A i'r Ddeddf, yn cael ei datgelu.*

### 5 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 045909

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) ar –

- (i) Gais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 045909 am drwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hur preifat;
- (ii) Nad oedd y swyddogion mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais yng ngoleuni gwybodaeth a ddatgelwyd ar ôl datgeliad manylach gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB);
- (iii) Darparwyd crynodeb o gollfarnau a ddatgelwyd, a oedd yn ymwneud â nifer o droseddau yn ystod y cyfnod 1982 i 2009 gan gynnwys digwyddiadau yn ymwneud â meddwdod, trais ac anonestrwydd;
- (iv) Polisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd collfarnau, a
- (v) Bod yr Ymgeisydd wedi ei wahodd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu (JT) grynodedb o'r adroddiad a dweud bod yr Ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd bod y mater wedi ei ddwyn gerbron y pwyllgor i asesu addasrwydd yr Ymgeisydd i ddal trwydded o ystyried natur y collfarnau.

Anerchodd yr Ymgeisydd y pwyllgor i gefnogi ei gais, gan ddweud ei fod yn rhydd rhag alcohol ac yn aml ef oedd y gyrrwr dynodedig ar gyfer teulu a chyfeillion. Adroddodd ar ei waith rhan-amser fel gyrrwr dosbarthu, gan ddweud ei fod hefyd yn dda gyda chwsmeriaid ac eisiau gwneud ei fywoliaeth fel gyrrwr tacsis. Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, adroddodd yr Ymgeisydd ar ei swyddi blaenorol yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf a'i ddymuniad am waith llawn-amser. Esboniodd hefyd yr amgylchiadau o gwmpas y troseddau a ddatgelwyd gan yr archwiliad cofnod troseddol. Yn ei ddatganiad terfynol, pwysleisiodd yr Ymgeisydd ei fod eisiau gweithio a dilyn gyrfa fel gyrrwr tacsis. Cadarnhaodd y Swyddog Trwyddedu bod yr Ymgeisydd wedi datgelu'r troseddau hyd eithaf ei wybodaeth ac wedi cydweithredu'n llawn gyda swyddogion yn ystod y broses o wneud cais.

Ar y pwynt hwn, torrodd y cyfarfod er mwyn i'r pwyllgor ystyried yr achos ac fe -

***BENDERFYNWYD*** gwrthod cais am drwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hur preifat gan Ymgeisydd Rhif 045909.

*Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -*

Tra'n nodi bod y rhan fwyaf o'r troseddau wedi digwydd beth amser yn ôl, mynegodd y pwyllgor amheuan ynglŷn â chaniatáu'r cais yn wyneb natur y troseddau hynny ac nid oedd yn gwbl fodlon gyda'r esboniadau a roddwyd gan yr Ymgeisydd mewn perthynas â hynny. Roedd gan yr Aelodau bryderon penodol ynglŷn â'r ddwy drosedd ddiwethaf a gyflawnwyd yn 2005 a 2009 mewn perthynas â meddwdod ac o ystyried polisi'r cyngor ynglŷn â pherthnasoedd collfarnau, ystyriwyd, dan yr amgylchiadau, y dylai'r Ymgeisydd fod yn rhydd rhag collfarnau

o'r fath am bum mlynedd cyn ceisio gwneud cais am drwydded. O ganlyniad, gwahoddodd y pwyllgor yr Ymgeisydd i wneud cais eto mewn 12 mis.

Bu i'r Cadeirydd hysbysu'r Ymgeisydd o'r penderfyniad a'r rhesymau am hynny.

## **SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, aeth y cyfarfod yn ei flaen mewn sesiwn agored.

### **6 CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED SEFYDLIAD RHYW**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn dweud bod cais i adnewyddu trwydded sefydliad rhyw wedi ei dderbyn gan Adult World mewn perthynas â safle yn 43 – 47 Queen Street, y Rhyl. Dywedodd nad oedd Heddlu Gogledd Cymru wedi codi unrhyw wrthwynebiad i'r cais ac ar ôl hysbysiad cyhoeddus ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gan aelodau'r cyhoedd.

Tynnodd y Prif Gyfreithiwr sylw'r aelodau at achos diweddar R (Hemming ac Eraill) v Cyngor Dinas Westminster a oedd yn cynnwys her gyfreithiol i ffioedd trwydded a godwyd am sefydliadau rhyw. Roedd yr achos yn sefydlu dwy egwyddor bwysig -

- Lle mae Cyngor yn elwa o ffioedd trwydded, pan fydd incwm y ffi yn fwy na'r gwariant a achosir, rhaid iddo gario'r gwaged ymlaen wrth benderfynu ar y ffi mewn blynyddoedd i ddod, a
- Mewn cynlluniau gorfodi a ddaw dan Reoliadau Darparu Gwasanaethau, ni ellir ailgodi costau gorfodi ar weithredwyr trwyddedig.

O ganlyniad, cynghorwyd yr aelodau efallai y byddai angen ailystyried y ffi yn y dyfodol oherwydd her bosibl. Ar ôl trafodaeth fer, fe—

*BENDERFYNWYD -*

- (a) caniatáu'r cais i adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw a ddelir mewn perthynas â safle yn 43 – 47 Queen Street, y Rhyl, gyda'r opsiwn i dalu'r ffi adnewyddu o £2600 mewn rhandaliadau, a
- (b) gofyn i'r swyddogion adolygu'r ffioedd presennol ar gyfer trwyddedu sefydliadau rhyw yng ngoleuni'r achos diweddar 'R (Hemming ac Eraill) v Cyngor Dinas Westminster' ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar y mater os oes angen.

## **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

*PENDERFYNWYD dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 o atodlen 12A i'r Ddeddf, yn cael ei datgelu.*

## **7 ADOLYGU TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT – GYRRWR RHIF 043120**

[Cyn cychwyn ar yr eitem hon, caniatodd y Cadeirydd ohiriad er mwyn i bawb ymgyswngtu gyda'r dogfennau.]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) ar –

- (i) Addaswyd Gyrrwr Rhif 043120 to i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hur preifat;
- (ii) Bod cwyn wedi ei derbyn gan feiciwr ynglŷn ag ymddygiad y Gyrrwr ar ddau achlysur gwahanol ar 31 Rhagfyr 2012 ac 1 Ionawr 2013, ac roedd ffilm o'r ddau achos ar gael i'r pwyllgor i'w gwyllo (roedd crynodeb o'r ffeithiau ynghyd â datganiadau gan dystion, trawsgrifiadau o'r sgysiau a recordiwyd a dogfennau cysylltiedig hefyd ynglwm wrth y prif adroddiad), a
- (iii) Roedd y Gyrrwr wedi ei wahodd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi adolygiad ei drwydded ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar y mater.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu (HB) yr adroddiad a rhoi crynodeb o ffeithiau'r achos. Yna gwylodd y pwyllgor ffilm o'r ddau ddigwyddiad a grybwyllwyd yn yr adroddiad a gafwyd o (1) gamera pen yr achwynydd a oedd wedi ei ddodi ar ei helmed beicio, (2) recordiad a wnaed gan y teithiwr a oedd gyda'r Gyrrwr ar ei ffôn symudol / llechen, a (3) clipiau a recordiwyd ar gamerâu teledu cylch cyfyng Canol Tref y Rhyl.

Anerchodd y Gyrrwr y pwyllgor gan ddweud iddo ddod yn yrrwr trwyddedig yn 2009 ac nad oedd erioed wedi bod yn destun cwyn o'r blaen. Dywedodd nad oedd wedi bod yn dreisgar tuag at y beiciwr mewn unrhyw ffordd ond wedi gofyn iddo roi'r gorau i reidio yng nghanol y ffordd oherwydd y gallai achosi damwain, ac reodd yn rhwystro ceir rhag goddiweddyd. Gwadodd ddilyn y beiciwr ar 1 Ionawr 2013 gan ychwanegu nad oedd ganddo reolaeth dros weithrediadau ei deithiwr.

Cymerodd yr aelodau y cyfle i holi'r Gyrrwr ynglŷn â'r digwyddiadau dan sylw, gan gyfeirio yn benodol at y rhesymeg y tu ôl i'w ymddygiad a'i fwriadau yn ystod y digwyddiad a recordiwyd ar 1 Ionawr 2013. Atebodd y Gyrrwr y cwestiynau a gwadodd ddilyn y beiciwr yn fwriadol neu aflonyddu arno, gan ychwanegu nad oedd wedi dangos unrhyw arwydd o drais tuag ato ar unrhyw adeg. Dywedodd hefyd ei fod yn ymwybodol o'r rheolau a'r rheoliadau yn yr amodau trwyddedu a Chod y Briffordd. Yn hynny o beth, derbyniodd y dylai beiciwr reidio i ffwrdd o ymyl y ffordd dan amylchiadau penodol, ond teimlai nad oedd angen reidio yng nghanol y ffordd yn ddiangen.

Wrth wneud ei ddatganiad terfynol, roedd y Gyrrwr eisieu esbonio nad oedd wedi derbyn hysbysiad aflonyddu gan yr Heddlu ond wedi ei hysbysu o ystyr aflonyddiad a gofynnwyd iddo anwybyddu'r beiciwr yn y dyfodol. Mewn ymateb i gwestiwn,

dywedodd y Gyrrwr efallai iddo weld y beiciwr ers hynny ond nad oedd wedi bod â rheswm i gysylltu ag o.

Ar y pwynt hwn, torrodd y cyfarfod i ystyried yr achos ac fe –

**BENDERFYNWYD** bod Gyrrwr Rhif 043120 yn cael rhybudd difrifol ynglŷn â'i ymddygiad a'i ymddygiad yn y dyfodol.

[Ni chymerodd y Cynghorydd Bill Cowie unrhyw ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar yr eitem hon gan nad oedd wedi bod yn bresennol ar gyfer y drafodaeth gyfan.]

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr achos gan gynnwys y ffilm a recordiwyd ac esboniad y Gyrrwr o'r digwyddiadau, credai'r aelodau bod y Gyrrwr wedi dilyn y beiciwr yn fwriadol ar 1 Ionawr 2013 ac wedi gyrru'n rhy agos a chodi ofn arno. Daeth y pwyllgor i'r casgliad hefyd bod y Gyrrwr wedi dangos diffyg gwybodaeth o God y Briffordd ac amodau trwyddedu cerbyd hacni/cerbydau hur preifat y Cyngor, yn enwedig o ran hawl beicwyr i reidio yng nghanol y lôn. O ganlyniad, penderfynodd y pwyllgor bod ymddygiad y Gyrrwr yn anghyson ag ymddygiad gyrrwr proffesiynol ac islaw'r safon ofynnol wrth ymdrin â'r beiciwr, ac felly dylid rhoi rhybudd difrifol ynglŷn â'i ymddygiad a'i ymddygiad yn y dyfodol.

Bu i'r Cadeirydd gyfleu penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau am hynny i'r Gyrrwr.

## **SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, aeth y cyfarfod yn ei flaen mewn sesiwn agored.

### **8 DIWEDDARIAD AR ADOLYGU FFI OEDD A THALIADAU TRWYDDEDU AR GYFER 2013/14**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo cadw'r strwythur ffioedd presennol nes bydd yr adolygiad o'r ffioedd a'r taliadau wedi ei gwblhau. Roedd y strwythur ffioedd presennol ynghlwm wrth yr adroddiad.

Cafodd y pwyllgor ddiweddariad ar gynnydd a wnaed ar yr adolygiad o'r ffioedd a'r taliadau trwyddedu, a dywedwyd bod cyngor cyfreithiol arbenigol yn cael ei geisio ar gyfrifo ffioedd trwyddedu er mwyn osgoi unrhyw heriau cyfreithiol. Byddai'r gwaith hwn yn cychwyn yn y man, ar ôl cwblhau adolygiad gweithdrefnau tacsis a cherbydau hur preifat. Yn y cyfamser, byddai swyddogion yn mynychu cwrs ddiwedd mis Mawrth ar ffioedd a thaliadau trwyddedu. Hysbyswyd yr aelodau hefyd bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithio dan Banel Technegol Trwyddedu Cymru Gyfan, gyda'r dasg o ystyried ffioedd a thaliadau, yn benodol ar gyfer tacsis.

Yn wyneb yr uchod, teimlai'r aelodau ei bod yn ddoeth cadw'r strwythur ffioedd presennol nes ceid adolygiad llawn o'r ffioedd a'r taliadau. Gofynnodd yr aelodau hefyd bod yr achos diweddar 'R (Hemming ac Eraill) v Cyngor Dinas Westminster'

yn delio â her gyfreithiol ynglŷn â ffioedd sefydliadau rhyw, yn cael ei gymryd i ystyriaeth fel rhan o'r adolygiad hwnnw ynghyd â phenderfyniad y llys apêl unwaith y byddai'n hysbys.

**PENDERFYNWYD** *cadw'r strwythur ffioedd presennol ar gyfer Ffioedd a Thaliadau Trwyddedu (fel y manylwyd yn yr atodiad i'r adroddiad) ar gyfer 2013/14 nes ceid canlyniadau'r adolygiad llawn.*

## 9 ADOLYGU AMODAU MARCHNAD AR GYFER Y RHYL

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo amodau diwygiedig ar gyfer Marchnad y Rhyl, ynghyd â strwythur ffioedd newydd (fel y nodwyd yn Atodiad 1 a 2 i'r adroddiad, yn eu tro).

Hysbyswyd yr aelodau –

- Ers sefydlu'r farchnad yn 2011 bu nifer o newidiadau yn arwain at adolygu'r amodau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu arferion gwaith presennol yn well
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio parhaol ar gyfer y farchnad ym mis Hydref 2012
- Bod Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi ei lunio ar gyfer Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i reoli a hyrwyddo deg stondin a fyddai'n cael eu cynnig i'r gymuned yn rhad ac am ddim am hyd at wyth wythnos; os oedd y fenter yn llwyddiannus, gallai deiliad y stondin wneud cais i rentu'r stondin yn barhaol
- Ar ôl prynu a darparu stondinau'r farchnad (gasebos) bu'n bosibl symleiddio'r strwythur ffioedd yn seiliedig ar nifer y gasebos a ddefnyddiwyd yn hytrach na gweithio'r pris allan fesul medr, ac roedd ffioedd wedi eu cyfrifo'n deg i sicrhau bod masnachwyr yn talu ffi realistig am pob gasebo a logwyd.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd yr aelodau y materion canlynol gyda'r swyddogion –

- Holodd y Cynghorydd Bill Cowie os oedd ymgynghori wedi bod gyda deiliaid stondinau presennol ar y newidiadau arfaethedig ac atebodd y Swyddog Trwyddedu nad oedd newidiadau materol mawr wedi eu gwneud ac y byddai'r diwygiadau yn sicrhau amodau mwy ymarferol, clir ac wedi eu symleiddio i'r deiliaid stondin
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Cefyn Williams ar reoli deg stondin am ddim a holodd os oedd yr effaith ar ddeiliaid stondinau presennol wedi ei chymryd i ystyriaeth. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y rhesymeg y tu cefn i'r penderfyniad i gefnogi pobl leol a chynnyrch lleol a rhoddodd sicrhau y byddai angen i ddarparu ddeiliaid stondin fodloni meini prawf penodol er mwyn cymhwysu. Adroddodd ar hyrwyddo Marchnad y Rhyl fel marchnad gymunedol gyda pherchnogaeth leol yn amlgu'r manteision i'r gymunedol o ganlyniad
- Adroddodd y Cynghorydd Win Mullen-James ar gwynion a dderbyniodd gan rai llai abl yn gorfforol a defnyddwyr cadeiriau olwyn yn y gymuned mewn

perthynas â chyfyngiad ar fynediad ar ddyddiau marchnad ac amlygodd yr angen i gael digon o le rhwng stondinau er mwyn rhoi gwell mynediad i'r unigolion hynny. Gofynnodd hefyd am sicrhad ynglŷn ag ansawdd y nwyddau i'w gwerthu. Rhybuddiodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn erbyn rheol gyffredinol yn erbyn nwyddau ail law ond rhoddodd sicrhad y byddai ansawdd y nwyddau yn cael ei ddilysu a'i reoli'n briodol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Amodau Marchnad diwygiedig ynghyd â'r strwythur ffioedd arfaethedig (a fanylwyd yn Atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad yn eu tro).

## **10 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2013/14**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar raglen waith y Pwyllgor Trwyddedu i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD** cydnabod rhaglen waith y Pwyllgor fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Pwyllgor Trwyddedu
<b>DYDDIAD:</b>	12 Mehefin 2013
<b>SWYDDOG ARWEINIOL:</b>	Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	Uwch Swyddog Trwyddedu <a href="mailto:trwyddedu@sirddinbych.gov.uk">trwyddedu@sirddinbych.gov.uk</a> 01824 706451
<b>TESTUN:</b>	Gweithdrefnau i Aelodau eu dilyn wrth benderfynu ar geisiadau ac adnewyddu trwyddedau Cerbyd Hacni a Hurio Preifat.

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.2 Er mwyn i Aelodau ystyried a chymeradwyo'r gweithdrefnau ar gyfer Aelodau wrth iddyn nhw benderfynu ar geisiadau trwydded Cerbyd Hacni a Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat ac adolygu gyrwyr trwyddedig.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 O bryd i'w gilydd, bydd yn rhaid i Swyddogion cyfeirio ceisiadau neu ddalwyr trwydded presennol at Aelodau er ystyriaeth. Mae a wnelo'r adroddiad hwn â'r gweithdrefnau arfaethedig diwygiedig ar gyfer Aelodau wrth iddyn nhw ystyried materion o'r fath.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIROL

- 3.1 Mae Swyddogion yn ei gweld hi'n briodol gofyn i Aelodau ystyried a chymeradwyo gweithdrefnau ar gyfer Aelodau wrth iddyn nhw benderfynu ar geisiadau cerbyd hacni a cheisiadau gyrwyr cerbydau hurio preifat ac adolygu dalwyr trwydded presennol.
- 3.2 Cafodd y gweithdrefnau presennol eu drafftio a'u cymeradwyo'n wreiddiol ar gyfer Trwyddedau Adloniant Cyhoeddus/Trwyddedau Eiddo. Mae Swyddogion o'r farn, oherwydd cynnydd yn nifer y ceisiadau ac adolygiadau sy'n cael eu dwyn gerbron yr Aelodau, y dylid llunio cyfres o weithdrefnau ar gyfer y diben hwn er mwyn hwyluso cyfarfodydd y Pwyllgor Trwyddedu. Mae copi o'r gweithdrefnau arfaethedig yn Atodiad A.

## 4. ARGYMHELLION

- 4.1 Argymhellir y dylai Aelodau gymeradwyo Gweithdrefnau'r Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer penderfynu ar geisiadau cerbyd hacni a cheisiadau gyrwyr cerbydau hurio preifat ac adolygu dalwyr trwydded presennol, fel y nodir yn Atodiad A.

**PWYLLGOR TRWYDDEDU  
GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM  
DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO  
PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL**

<b>CAM</b>	<b>DISGRIFIAD</b>
1.	Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol.
2.	Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4.
3.	Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad.
4.	Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras
5.	Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos  Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny.
3.	Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion.
7.	Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.)
8.	Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol
9.	Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

11.	<p>Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol.</p> <p>DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion.</p>
12.	<p>Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd.</p>
13	<p>Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd.</p>
14.	<p>Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd.</p>
15	<p>Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded.</p>
16.	<p>Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn).</p>
17.	<p>Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.</li> <li>2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.</li> </ol> <p>Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd.</p> <p>Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded.</p>
18.	<p>Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl.</p>

19	Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor.
----	---

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Pwyllgor Trwyddedu
<b>DYDDIAD:</b>	12 Mehefin 2013
<b>SWYDDOG ARWEINIOL:</b>	Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	Uwch Swyddog Trwyddedu <a href="mailto:trwyddedu@sirddinbych.gov.uk">trwyddedu@sirddinbych.gov.uk</a> 01824 706451
<b>TESTUN:</b>	Gweithdrefnau ar gyfer Polisiâu Newydd a Diwygiedig

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.2 Er mwyn i'r Aelodau ystyried a chymeradwyo gweithdrefnau i Swyddogion eu dilyn wrth ddrafftio polisiâu newydd a chyfredol.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 O bryd i'w gilydd, mae'n rhaid i Swyddogion ddrafftio polisiâu newydd a diwygio polisiâu cyfredol o fewn cylch gwaith yr Adain Drwyddedu. Mae a wnelo'r adroddiad hwn â'r gweithdrefnau arfaethedig diwygiedig ar gyfer Aelodau sy'n ystyried materion o'r fath.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIROL

- 3.1 Mae Swyddogion yn ei gweld hi'n briodol i ofyn i Aelodau ystyried a chymeradwyo gweithdrefnau ar gyfer Swyddogion sy'n drafftio polisiâu trwyddedu newydd ac yn adolygu polisiâu trwyddedu cyfredol.
- 3.2 Ar hyn o bryd, nid oes gweithdrefnau ysgrifenedig i Swyddogion eu dilyn (ar wahân i ofynion statudol a nodwyd mewn rhai deddfwriaethau). Gall hynny arwain at fethu elfen bwysig o'r broses e.e. peidio â chynnal yr ymgynghoriad cywir neu fethu bodloni gofynion asesiad effaith ar gydraddoldeb.
- 3.3 Mae'r gweithdrefnau arfaethedig yn cynnwys polisiâu newydd ac felly mae angen cynnal ymgynghoriad llawn, gan gynnwys sgrinio'r polisi arfaethedig yn defnyddio Pecyn Cymorth Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb, ynghyd â llunio adroddiad i'r Aelodau yn amlinellu'r polisi arfaethedig a chwmpas yr ymgynghoriad arfaethedig.
- 3.4 O ran polisiâu cyfredol sydd angen diwygiadau cyffredinol, bydd Swyddogion yn trafod y diwygiadau arfaethedig, ynghyd ag unrhyw

ymgyngoriad, gydag Aelodau ac yn gofyn iddyn nhw argymhell bod yr Aelod Arweiniol yn mabwysiadu'r diwygiadau.

- 3.5 O ran mân ddiwygiadau i bolisi cyfredol, er enghraifft diweddariadau deddfwriaethol neu ddiwygio rhan sydd bellach yn amherthnasol, cynigir y dylai Pennaeth y Gwasanaeth gymeradwyo'r diwygiadau.
- 3.6 Fe ddylai cymeradwyo cyfres o weithdrefnau, sy'n arwain Swyddogion drwy'r broses, leihau'r risg o bobl yn herio'r Cyngor a/neu'r polisi yn anweithredol oherwydd gwall gweinyddol. Mae copi o'r gweithdrefnau arfaethedig yn Atodiad A.

#### 4. **ARGYMHELLION**

- 4.1 Argymhellir bod yr Aelodau yn cymeradwyo'r gweithdrefnau ar gyfer polisïau newydd a diwygiedig, fel y nodir yn Atodiad A.

## PROSES POLISI TRWYDDEDU CYFFREDINOL

### POLISI NEWYDD NEU DDIWYGIAD SYLWEDDOL I BOLISI CYFFREDOL

#### CYN YR YMGYNGHORIAD

1. **Gwirio gofynion y ddeddfwriaeth ar gyfer cynnal ymgynghoriad**  
Mae gan rai darpariaethau trwyddedu ofynion ymgynghori statudol
2. **Casglu tystiolaeth ac ymgynghoriad anffurfiol**
  - a. Trefnwch yr amserlen gyda'r Pwyllgor Trwyddedu e.e. i gymeradwyo Rhaglen Waith i'r Dyfodol.
  - b. Nodwch y materion i'w trafod a chyda pwy y dylid ymgynghori ac ati.
3. **Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb**
  - a. Sgriniwch y polisi/polisiau yn defnyddio Pecyn Cymorth Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb. Os yn berthnasol, cynhaliwch Asesiad Cydraddoldeb llawn. Unwaith mae'r asesiad wedi ei gynnal, cyhoeddwch o ar-lein a chadwch gopi yn y Storfa Ddogfennau Gweithio.
4. **Pwyllgor Trwyddedu**  
Cyflwynwch adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu yn amlinellu'r polisi arfaethedig a chwmpas yr ymgynghoriad arfaethedig. Mae'n rhaid i Aelodau gytuno â'r polisi drafft ar gyfer ymgynghoriad a chytuno ar gwmpas yr ymgynghoriad.

#### YR YMGYNGHORIAD

5. **Gyda phwy?**  
Bydd hyn yn dibynnu ar natur y polisi ond, ar y cyfan, dylid ymgynghori â:
  - ✓ Dalwyr trwydded
  - ✓ Grwpiau busnes/defnyddwyr perthnasol
  - ✓ Cyngorwyr Sir
  - ✓ Cyngorau Tref a Chymuned
  - ✓ Unrhyw ofyniad statudol penodol o fewn y ddeddfwriaeth
6. **Cyhoeddusrwydd**  
Datganiad i'r wasg  
Llythyr at ymgynghorai cytûn  
Sesiynau galw heibio – lleoliadau a dyddiadau i'w penderfynu yn nes at yr ymgynghoriad.  
Unrhyw hysbysiad cyhoeddus statudol

**7. Yr Ymgynghoriad**

Rhaid cynnal ymgynghoriad am o leiaf 4 wythnos

Rhaid i'r dogfennau fod ar gael mewn llyfrgelloedd a Siopau Un Stop.

Rhaid i'r dogfennau fod ar gael ar-lein gyda chyfleuster ar-lein i ymateb

Rhaid darparu cyfieithiad.

**AR ÔL YR YMGYNGHORIAD**

a. Cofnodwch bob ymateb ar ddata-bas

b. Ystyriwch ac ymatebwch i bob sylw

**8. Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu**

Lluniwch adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu ar yr ymgynghoriad ac ar unrhyw newid awgrymedig i'r polisi, er mwyn i'r Pwyllgor gefnogi ac argymhell bod y Cyngor Llawn yn ei fabwysiadu.

**9. Y Cyngor Llawn i fabwysiadu'r Polisi terfynol**

Dim ond pan fydd y Cyngor Llawn wedi cymeradwyo'r polisi y daw'r polisi yn weithredol. Dylid cynnwys datganiad o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd, y sylwadau a dderbynnir ac ymateb yr awdurdod i'r sylwadau gyda'r polisi cymeradwyedig, naill ai fel atodiad neu fel dogfen ar wahân.

**10. Diwygiadau Cyffredinol i'r Polisi Cyfredol**

Dylid trafod y diwygiadau arfaethedig yng nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu.

Dylid hefyd ystyried y gofynion ymgynghori.

Dylai Swyddogion gynnal yr ymgynghoriad a llunio adroddiad i'r Pwyllgor Trwydded er mwyn i'r Aelodau argymhell diwygiadau i'r Aelod Arweiniol.

Dylid llunio adroddiad i'r Aelod Arweiniol yn argymhell cymeradwyo'r diwygiadau i'r Polisi cyfredol.

**11. Mân Ddiwygiadau i'r Polisi Cyfredol**

Dylai Swyddogion baratoi adroddiad mewnol i'r Pennaeth Gwasanaeth yn nodi'r mân ddiwygiadau i'r polisi.

Y Pennaeth Gwasanaeth i ystyried y diwygiadau i'r polisi a'u gweithredu (os yn briodol).

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Pwyllgor Trwyddedu
<b>DYDDIAD:</b>	12 Mehefin 2013
<b>SWYDDOG ARWEINIOL:</b>	Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	Uwch Swyddog Trwyddedu <a href="mailto:trwyddedu@sirddinbych.gov.uk">trwyddedu@sirddinbych.gov.uk</a> 01824 706451
<b>TESTUN:</b>	Gweithdrefnau Trwyddedu

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.2 Er mwyn i'r Aelodau gymeradwyo cyfres o weithdrefnau, gan gynnwys dirprwyo i Swyddogion, ar gyfer Swyddogion sy'n delio â cheisiadau.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Er mwyn i'r Aelodau ystyried a chymeradwyo cyfres o weithdrefnau drafft ar gyfer trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat yn dilyn adolygiad manwl o'r drefn drwyddedu.
- 2.2 Mae pob gweithdrefn yn nodi manylion dirprwyaethau addas i Swyddogion ac felly mae'n hanfodol diwygio'r cynllun dirprwyo presennol i adlewyrchu'r manylion yn y gweithdrefnau ynghlwm.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIROL

- 3.1 Mae Cerbydau Hacni a cherbydau hurio preifat yn ddulliau teithio pwysig. Mae'n gyfrifoldeb ar y Cyngor i ddarparu system drwyddedu gadarn sy'n sicrhau diogelwch teithwyr a gwasanaeth o safon.
- 3.2 Mae trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat yn faes cymhleth. Mae cydweithredu a chyfathrebu rhwng meysydd gwasanaeth y Cyngor ac asiantaethau partner yn hanfodol i sicrhau diogelwch y cyhoedd ac i sicrhau bod y system yn cael ei gweinyddu yn briodol.
- 3.3 I sicrhau bod prosesau trwyddedu mor gadarn â phosib a bod pob person perthnasol yn eu deall, dechreuwyd cynnal adolygiad llawn ym mis Mehefin 2012, wedi ei hwyluso'n wreiddiol gan Archwilio Mewnol. Roedd nifer o Swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod adolygu; Trwyddedu a Gorfodi, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Fflyd, Cludiant

Ysgol a Heddlu Gogledd Cymru. Roedd yr adolygiad hwn yn arf ddefnyddiol gan ei fod yn adnabod meysydd sydd angen gwell cyfathrebu. Roedd hefyd yn egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau staff trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat gan ddarparu gwell dealltwriaeth o sut dylai pethau weithio.

- 3.4 Ers yr adolygiad cychwynnol ym mis Mehefin 2012, mae Swyddogion wedi cyfarfod yn rheolaidd i lunio'r 8 gweithdrefn derfynol ar gyfer trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat.
- 3.5 Mae James Button, Arbenigwr Cyfreithiol Trwyddedu, wedi craffu ar y gweithdrefnau drafft ac mae ei sylwadau wedi eu hystyried a'u cynnwys yn y gweithdrefnau diwygiedig. Mae copi o'r 8 gweithdrefn yn Atodiad A.
- 3.6 Cynigir y dylai'r gweithdrefnau ddod i rym ar 1 Awst 2013. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i Swyddogion gael popeth yn ei le.
- 3.7 Caiff y gweithdrefnau eu hadolygu yn flynyddol. Bydd Pennaeth y Gwasanaeth yn cymeradwyo unrhyw fân newid i'r gweithdrefnau. O ran newidiadau dirprwyo, bydd Swyddogion yn cyfeirio'r mater at Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu er eu hystyriaeth a'u cymeradwyaeth.

#### 4. **ARGYMHELLION**

- 4.1 Argymhellir bod Aelodau yn cymeradwyo 8 gweithdrefn cerbydau hacni a hurio preifat fel y nodir yn Atodiad A, a fydd yn dod i rym ar 1 Awst 2013.  
  
Argymhellir bod Aelodau yn cymeradwyo'r dirprwyaethau fel y nodir yn y gweithdrefnau, i ffurfio rhan o'r cynllun dirprwyo, a fydd yn dod i rym ar 1 Awst 2013.
- 4.2

## Planning and Public Protection Service

**Name of Policy / Procedure / Protocol / Plan:**

**Procedure for dealing with expired insurance and compliance documents**

<b>Author / Custodian:</b>	Nicky Jones
<b>Date agreed and implemented:</b>	Agreed: 12th June 2013 Implemented: 1 <sup>st</sup> August 2013
<b>Agreed by:</b>	Licensing Committee
<b>Frequency of Review:</b>	Annual
<b>Review date:</b>	May/June 2014
<b>Equality Impact Assessment completed: (date)</b>	N/A
<b>Member involvement (if any)</b>	Licensing Committee
<b>Internal or Public Domain:</b>	Public Domain
<b>Head of Service Approval: (signature &amp; date)</b>	22 <sup>nd</sup> May 2013

### VERSION CONTROL:

Reference:	Status:	Authorised by:	Date:
V01	Final	Licensing Committee	12.06.13

## 1. Purpose

To ensure consistency of administering and enforcing the Hackney Carriage and Private Hire legislation and the safety of the travelling public throughout the County of Denbighshire. This procedure aims to provide practical guidelines for officers to be clear on what process need to be followed when dealing with insurance and compliance documents and to ensure that legislation is adhered to.

## 2. Related Documents

Town Police Clauses Act 1847

Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 Section 49

Blue Book (Conditions and Policy)

Flowcharts Attached

## 3. Officer Delegations

The Licensing Committee have delegated to the Head of Service who has subsequently authorised the following Officers to carry out the functions detailed below.

<b>FUNCTION</b>	<b>OFFICER</b>
Suspension of vehicle licence under Section 60 LG(MP)A 1976	Head of Service or Public Protection Manager or Senior Licensing Officer or Senior Community Safety Enforcement Officer

## 4. Legislation/Policy

There is no specific section of the legislation that requires a proprietor of a vehicle licence to provide continuous cover of insurance and compliance/MOT certificates. It is a condition of their licence, contained within the policy and conditions.

The existing policy states:

The licensee shall ensure that renewed motor insurance cover and certificate of compliance are submitted to the Licensing Officer, in original form, either prior to or on their expiry. Failure to provide such documentation will result in the immediate suspension of licence(s)

## 5. Process

- i) Weekly report printed from Licensing System of documents that have expired
- ii) Suspension notice issued and signed by SLO/LEO. Suspension will only take effect after 21 days so it will give the licensee time to submit the updated document.

- iii) Update licensing system
- iv) Notify School Transport and Social Services Contract Teams
- v) If the documents are received within the 21 days then the suspension will be lifted
- vi) SLO to issue a letter lifting the suspension.
- vii) Inform School Transport and Social Services Contract Teams that the vehicle is no longer suspended
- viii) Update Licensing system.
- ix) If the documents are not received within the 21 days then the suspension is in force and Enforcement will be instructed to remove the plate(s) from the vehicle if the licence holder has not surrendered it.
- x) The vehicle will remain suspended until such time as original renewal documents have been received
- xi) Once documents have been received follow step (v) – (viii) above.

## **6. Right of Appeal**

The proprietor has a right of appeal against any of the Council's decisions , to the Magistrates Court .

## **7. Review of Procedure**

This procedure will be reviewed by the Licensing Section and Section Manager on an annual basis or sooner if changes to legislation are made.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

---

## Planning and Public Protection Service

---

**Name of Policy / Procedure / Protocol / Plan:**

**Procedure for the Grant/Renewal of a Private Hire Operator Licence**

<b>Author / Custodian:</b>	Nicky Jones
<b>Date agreed and implemented:</b>	Agreed: 12 <sup>th</sup> June 2013 Implemented: 1 <sup>st</sup> August 2013
<b>Agreed by:</b>	Licensing Committee
<b>Frequency of Review:</b>	Annual
<b>Review date:</b>	May/June 2014
<b>Equality Impact Assessment completed: (date)</b>	N/A
<b>Member involvement (if any)</b>	Licensing Committee
<b>Internal or Public Domain:</b>	Public Domain
<b>Head of Service Approval: (signature &amp; date)</b>	22 <sup>nd</sup> May 2013

<b>VERSION CONTROL:</b>			
<b>Reference:</b>	<b>Status:</b>	<b>Authorised by:</b>	<b>Date:</b>
V01	Final	Licensing Committee	12.06.13

## 1. PURPOSE

To ensure consistency of administering and enforcing the Private Hire legislation and the safety of the travelling public throughout the County of Denbighshire. This procedure aims to provide practical guidelines for officers accepting and processing applications for new and renewal Operator Licences and to ensure that legislation is adhered to.

## 2. RELATED DOCUMENTS

Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976

Blue Book (Conditions and Policy)

Flowchart 1 Grant of a Private Hire Operator Licence

2 Renewal of a Private Hire Operator Licence

## 3. OFFICER DELGATAIONS

The Licensing Committee have delegated to the Head of Service who has subsequently authorised the following Officers to carry out the functions detailed below.

<b>FUNCTION</b>	<b>OFFICER</b>
Processing of application	Licensing Support Officer
Rejection of application	Public Protection Manager or Senior Licensing Officer
Referral of application to Licensing Committee	Public Protection Manager or Senior Licensing Officer
Grant/renewal of application	Public Protection Manager or Senior Licensing Officer
Refusal of application	Head of Service or Public Protection Manager or Senior Licensing Officer

## 4. LEGISLATION

Section 55 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 gives the Local Authority power to licence Private Hire Operators, which states:

'55(1) subject to the provisions of this Part of the Act, a district Council shall, on receipt of an application for any person for the grant to that person of a licence to operate private hire vehicles grant to that person an operator's licence:

provided that a district council shall not grant a licence unless they are satisfied that the applicant is a fit and proper person to hold an operator's licence.

## 5. GENERAL NOTES

Once an application has been received, the only ground for refusal is whether the applicant is a fit and proper person.

It is not possible to obtain an enhanced DBS (Disclosure and Barring Service) Check (formerly a CRB Check) for an operator licence applicant. An Operator applicant is not on the DBS's list of relevant occupations for an enhanced disclosure. A basic disclosure can be obtained along with a statutory declaration.

Conditions may be attached to an Operator's Licence but they must be reasonably necessary.

## **6. PROCESSING APPLICATION FOR GRANT (flow chart 1)**

- i. Licensing Support Officer to check the application form is completed and signed by applicant/dated. If not complete reject application
- ii. Is the applicant a licensed driver with the County? If yes then a new DBS is not required but if he is not a licensed driver then a basic disclosure and signed statutory declaration must be produced – see section 10 below
- iii. Has the applicant stated he has a radio licence? If so you must see a copy of it. If applicant fails to produce reject application
- iv. Licensing Support Officer to receipt fee – Code to H290019428
- v. If application complete pass to SLO for determination
- vi. SLO to determine whether applicant is a fit and proper person in line with legislation
- vii. If deemed NOT fit then application must be referred to Licensing Committee
- viii. SLO to prepare committee report, for committee to determine application
- ix. If deemed FIT then the application can be granted by SLO
- x. Licensing Support Officer to enter application onto licensing system
- xi. Licence to be signed by SLO (authorised officer) and one copy sent to Licence Holder/one copy to go on file.
- xii. An Operator file will need to be prepared and documents filed
- xiii. Licensing Support Officer to inform Planning if application is granted

## **7. PROCESSING APPLICATION FOR RENEWAL (see flowchart 2):**

- i. Each month, Licensing to produce a monthly licensing system report detailing the operator licences due for renewal
- ii. Print renewal form and letter from licensing system and send out to licence holder. Ensure that the renewal documents are sent out to licence holder with at least one month notice of expiry.
- iii. Licensing Support Officer must check to ensure that all the required information has been fully completed on the application form and signed/dated.
- iv. If the applicant is not a licensed driver, we need to ensure that the applicant has not declared any new convictions or pending prosecutions on the application form. If applicants circumstances have changed move onto step xi below
- v. If the application requires supporting documents eg Radio Licence check documents thoroughly to ensure that it has a valid date in force
- vi. Check correct fee received (see table of fees attached)
- vii. Licensing Support Officer to receipt fee (Code to H290019428)

- viii. Licensing Support Officer to update licensing system and produce the renewal licence
- ix. Licence to be signed by SLO and one copy sent to licence holder and one to be attached to renewal documents.
- x. Documents to be filed in Operator file.
- xi. **IF APPLICANT DECLARES** new convictions SLO to inform School Contracts and Social Services Contracts
- xii. **IF APPLICANT DECLARES** a pending prosecution SLO to liaise with Licensing Manager and dependant on allegation SLO to take either no action, refer to committee or wait until the outcome of the Court hearing.
- xiii. SLO to prepare a report for Committee for determination

## **8. APPLICATION NOT RECEIVED BEFORE EXIPRY:**

If the application is not renewed by the expiry date of the existing licence then refer the matter to Enforcement Team the day after the expiry date

## **9. DBS AND STATUTORY DECLARATION**

It is very unusual for new applications to be received for an Operator's Licence when the applicant is not already an existing licensed driver within the County, but on occasions this may happen and then we must ask the applicant to submit a basic disclosure from the DBS along with a Statutory Declaration signed by a Solicitor.

## **10. REJECTION OF APPLICATION**

Rejection of application would take place if:

- a. if the applicant has not provided all appropriate supporting documents
- b. If the applicant has not fully completed the application form.

Insert reasons for rejection in the body of letter.  
Rejection Letter must be signed by SLO

## **11. REFUSAL TO GRANT**

A Local Authority has very little reasons for refusal of a licence if the applicant complies with all the application requirements. The only grounds are whether the applicant is a fit and proper person which will be determined by scrutinising the information on the application form, basic DBS and statutory declaration or if the applicant is a licensed driver he/she would have an enhanced DBS.

## **12. COMMITTEE DECISION**

On occasions Officers may need to refer applications to the Licensing Committee for determination as to whether the applicant is a fit and proper person to hold an Operator Licence. Members may resolve to take one of the following decisions:

1. **Grant**
2. **Refuse**

Members need to give appropriate reasons for refusal

### **13. RIGHT OF APPEAL**

Section 55(4) - any person aggrieved by the refusal of a district council to grant an operator's licence under this section or by any conditions specified in such a licence, may appeal to a magistrates' court.

### **14. REVIEW OF PROCEDURE**

This procedure will be reviewed by the Licensing Section and Section Manager on an annual basis or sooner if changes to legislation are made.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

---

## Planning and Public Protection Service

---

**Name of Policy / Procedure / Protocol / Plan:**

**Procedure for the Grant/Renewal of a Hackney  
Carriage and Private Hire Vehicle Licence**

<b>Author / Custodian:</b>	Nicky Jones
<b>Date agreed and implemented:</b>	Agreed: 12 <sup>th</sup> June 2013 Implemented: 1 <sup>st</sup> August 2013
<b>Agreed by:</b>	Licensing Committee
<b>Frequency of Review:</b>	Annual
<b>Review date:</b>	May/June 2014
<b>Equality Impact Assessment completed: (date)</b>	N/A
<b>Member involvement (if any)</b>	Licensing Committee
<b>Internal or Public Domain:</b>	Public Domain
<b>Head of Service Approval: (signature &amp; date)</b>	22 <sup>nd</sup> May 2013

<b>VERSION CONTROL:</b>			
<b>Reference:</b>	<b>Status:</b>	<b>Authorised by:</b>	<b>Date:</b>
V01	Final	Licensing Committee	12.06.13

## 1. PURPOSE

To ensure consistency of administering and enforcing the Hackney Carriage and Private Hire legislation and the safety of the travelling public throughout the County of Denbighshire. This procedure aims to provide practical guidelines for officers accepting and processing applications for new and renewal vehicles and ensure that legislation is adhered to.

## 2. RELATED DOCUMENTS

Town Police Clauses Act 1847

